Safleoedd Arddangos Cig Coch Cyswllt Ffermio
HALGHTON HALL

Safle Arddangos: HALGHTON HALL, Bangor Is-coed, Wrecsam

Swyddog Technegol: Gwion Parry

Teitl y Prosiect:
Sicrhau'r cyfraddau cyfebu gorau mewn ŵyn benyw

Cyflwyniad i'r prosiect:

Mae cyfyngiadau o ran maint ŵyn benyw, eu pwysau byw ac yn arbennig eu hoed yn debygol o gyfyngu ar y graddau y gellir bridio oddi wrthynt. Mae cyfraddau ffrwythlondeb ac epilgarwch ŵyn benyw yn is na rhai mamogiaid aeddfed. Mae hyn yn wir am bod ganddynt gyfraddau creu wyau is a mwy o'r embryonau yn marw. Mae Halghton Hall yn magu oddi wrth ŵyn benyw er mwyn gwella effeithlonrwydd y ddiadell. Nod y prosiect hwn yw darganfod y pwysau a'r cyflwr delfrydol wrth gyfebu i oen benyw, yn ogystal â dynodi elfennau allweddol wrth reoli y gellir eu haddasu i gynyddu cyfraddau cyfebu.

Amcanion y Prosiect:

Amcan allweddol y prosiect hwn yw darganfod y pwysau a'r cyflwr delfrydol wrth gyfebu i oen benyw yn Halghton Hall. Trwy'r astudiaeth gwaelodlin a gynhaliwyd ar y safle gwelwyd bod cyfradd gyfebu ŵyn benyw ar hyn o bryd yn 60%. Ond, trwy ddynodi'r strategaethau rheoli allweddol a all gael effaith ar gyfraddau cyfebu ŵyn benyw a'u gwella, y nod yw cynyddu cyfraddau cyfebu i >85% mewn tair blynedd.

Y Dangosyddion Perfformiad Allweddol a osodwyd:

- Cynyddu cyfraddau cyfebu ŵyn benyw o 60% i >85% cyn pen tair blynedd o gychwyn y prosiect

David Lewis - Halghton Hall

LLINELL AMSER A CHERRIG MILLTIR: